**CYNGOR DINAS CAERDYDD**

**COFNODION**

---

# CYFARFOD Y CABINET: 16 MEHEFIN 2016

---

| | |
|---|---|
| Aelodau Cabinet yn Bresennol: | Cynghorydd Phil Bale (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Sue Lent<br>Cynghorydd Peter Bradbury<br>Cynghorydd Dan De'Ath<br>Cynghorydd Bob Derbyshire<br>Cynghorydd Graham Hinchey<br>Cynghorydd Susan Elsmore<br>Cynghorydd Sarah Merry<br>Cynghorydd Ramesh Patel |
| Gwylwyr: | Cynghorydd Dianne Rees<br>Cynghorydd Neil McEvoy<br>Cynghorydd Judith Woodman |
| Swyddogion: | Paul Orders, Prif Weithredwr<br>Christine Salter, Swyddog Adran 1511<br>David Marr, Swyddog Monitor<br>Claire Deguara Swyddfa'r Cabinet |

## 1 COFNODION Y CYFARFOD CABINET A GYNHALIWYD AR 19 MAI 2016

**Penderfynwyd:** I gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mai.

## 2 I DDERBYN ADRODDIAD Y GRŴP GORCHWYL A GORFFEN CRAFFU AR Y CYD O'R ENW "ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL"

Derbyniodd y Cabinet adroddiad y grŵp gorffen a gorchwyl craffu ar y cyd o'r enw "Ardoll seilwaith cymunedol". Roedd yr adroddiad yn cynnwys 13 o argymhellion.

**PENDERFYNWYD** : Derbyn yr adroddiad a nodi bod yr ymateb wedi ei gynnwys o fewn adroddiad Ardoll Seilwaith Cymunedol Caerdydd.

## 3 SAFONAU'R GYMRAEG: ADRODDIAD BLYNYDDOL 2015-16

Ystyriodd y Cabinet Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2015-16. Roedd yr adroddiad yn darparu sail ffurfiol ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â'r safonau.

Daeth y safonau iaith i rym ar 30 Mawrth 2016,  roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y camau a gymerodd y Cyngor i baratoi i gydymffurfio â’r safonau newydd, ynghyd â darparu gwybodaeth sydd yn ofynnol o dan y safonau.

**PENDERFYNWYD:** fod Adroddiad Blynyddol Safonau’r Gymraeg (yn atodedig yn Atodiad 2 i'r adroddiad) I gael ei gymeradwyo yn y Cyngor cyn eu cyhoeddi yn unol â safonau iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011).

## 4 Y DIWEDDARAF AR Y RHAGLEN DATBLYGU SEFYDLIADOL

Derbyniodd cabinet adroddiad yn amlinellu'r cynnydd yn rhaglen datblygu sefydliadol (RHDS) y Cyngor. Roedd yr adroddiad yn mapio y camau nesaf ar gyfer prosiectau allweddol a mentrau, sydd yn hanfodol i wella gwydnwch ariannol y Cyngor a'i berfformiad wrth ddarparu gwasanaethau yn y tymor canolig.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar adnewyddu’r RHDS yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod cynigion ar gyfer gwella yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn cael sylw a bod newidiadau sefydliadol ar draws y Cyngor yn cael eu darparu yn gyson a chyda chynydd yng nghyflymder y broses o ddarparu.

**PENDERFYNWYD** : i

1) Nodi cynnwys yr adroddiad.

2) cytuno ar gyfeiriad y rhaglen ddatblygu sefydliadol fel y’i nodir yn yr adroddiad hwn ar gyfer y dyfodol;

3) awdurdodi y Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â’r Arweinydd ac aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad, i hwyluso darparu rhaglen ddatblygu sefydliadol;

4) cynnal adolygiad annibynnol ar y Rhaglen datblygu sefydliadol y ar bwynt priodol yn 2017; a

5) Adroddiad sy'n dadansoddi tirwedd cyfnewidiol y sector cyhoeddus a safbwynt y Cyngor I gael ei ddwyn ger bron y Cabinet yn y dyfodol.

## 5 CWMNI MASNACHU'R AWDURDOD LLEOL – COMISIYNU A CHAFFAEL

***Atodiad 1A i'r adroddiad hwn wedi ei eithrio rhag ei gyhoeddi yn rhinwedd paragraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972***

Y Cabinet yn ystyried cynigion i sefydlu cwmni masnachu awdurdod lleol i ddarparu caffael a gwasanaethau masnachol i'r cyhoedd a sefydliadau yn y sector preifat.

Roedd yr achos busnes oedd wedi'i atodi i’rr adroddiad yn manylu ar yr asesiad a gynhaliwyd o'r tri dewis fodel cyflenwi ar y rhestr fer, dadansoddiad budd cost, y

canlyniadau a gynlluniwyd a manteision i'r Cyngor, asesiad risg a manylu ar y trefniadau llywodraethiant a’r strwythur cyfreithiol.

**PENDERFYNWYD** : i

1. Achos Busnes y Cwmni Masnachu Comisiynu a Chaffael yr Awdurdod Lleol sydd ynghlwm wrth yr adroddiad i gael ei gymeradwyo a chytuno i’r cwmni Masnachu Awdurdod Lleol I gael ei gytuno fel y’I disgrifiwyd yn gyffredinol yn yr adroddiad i ddarparu gwasanaethau masnachol a caffael I’r sector cyhoeddus a'r sector preifat

2. cytuno ar benodi Cyfarwyddwr Corfforaethol (Adnoddau) fel cynrychiolydd Cyfranddaliwyr y Cyngor.

3. Nodi ac argymell i'r Cyngor i gymeradwyo penodi swyddogion fel Cyfarwyddwyr y Bwrdd fel y nodir ym mharagraff 31 adroddiad.

4. Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Adnoddau) mewn ymgynghoriad â Swyddog Monitro'r Cyngor i:

   - Cytuno ar y dogfennau cyfansoddiadol a llywodraethiant sy'n ofynnol i sefydlu cwmni masnachu awdurdod lleol
   - Cytuno pob un o’rdogfennau eraill sy’n ofynnol sy'n ymwneud â gweithrediadau y cwmni masnachu awdurdod lleol a’i berthynas gyda'r Cyngor

## 6 ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 4 2015-16

Derbyniodd y Cabinet adroddiad perfformiad y Cyngor ar gyfer chwarter 4 (Ionawr i Fawrth) y flwyddyn ariannol 2015/16. Nodwyd bod ar draws pob Cyfarwyddiaeth 70% o'r ymrwymiadau cynllun corfforaethol yn wyrdd a 48% o Ddangosyddion Perfformiad yn wyrdd.

Dosbarthwyd taflen ddiwygiadau a amlinellai fod paragraff 8 yr adroddiad wedi ei ddiwygio i’r canlynol –

> *48% o ddangosyddion perfformiad yn wyrdd, oren yn 15% ac 18% yn goch, gyda* ***10% gyda chanlyniadau ddim ar gael eto****. Yr alldro terfynol ar gyfer dangosyddion perfformiad yn 2014-15 oedd 47.2% Gwyrdd 18.8% Oren, bydd a 14.8% Coch, a chaiff cymhariaeth llawn ei wneud unwaith y bydd canlyniadau 2015-16 i gyd ar gael.*

Roedd tudalen gyntaf Atodiad A hefyd wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r ffigur o 10%.

**PENDERFYNWYD** : I nodi y sefyllfa bresennol o ran perfformiad, cyflawni ymrwymiadau allweddol a blaenoriaethau fel yn chwarter 4 a'R camau a gymerir i ymdrin â meysydd sy'n peri pryder.

## 7 ALLDRO 2015/16

Roedd y Cabinet wedi derbyn manylion o'r alldro ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 o'i gymharu â chyllideb ar gyfer y flwyddyn ar gyfer refeniw a gwariant cyfalaf ill dau.

Cynghorwyd y Cabinet fod y sefyllfa o ran alldro refeniw yn dangos gwarged o £1.696 miliwn o bunnoedd ar ôl cyfraniadau o gronfeydd wrth gefn. Cafwyd crynodeb o Ddatganiad Rheoli y Trysorlys mewn perthynas â buddsoddiadau a benthyca hefyd.

**Penderfynwyd:** bod

1. yr adroddiad a'r camau a gymerir mewn perthynas â Chyfrifon y Cyngor ar gyfer 2015/16 cymeradwyo.

2. Mae'n nodi y bydd yr adroddiad yn Atodiad i adroddiad datganiadau ariannol i'w hystyried yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Medi 2016

## 8 STRATEGAETH IECHYD A LLES GWEITHWYR

Derbyniodd cabinet strategaeth iechyd a llesiant y gweithwyr. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod cyflogeion yn allweddol i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer Caerdydd. Pan fydd cyflogeion yn iach, wedi eu cymell ac yn cael ymdeimlad o lesiant, yna bydd profiadau ein trigolion yn gwella. Mae'r strategaeth yn darparu fframwaith i helpu g wella iechyd a llesiant ein gweithwyr.

**PENDERFYNWYD** : i

1. gymeradwyo strategaeth iechyd a llesiant y gweithwyr sydd wedi'i atodi fel Atodiad 1

2. nodi cynnwys y llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Adolygu Polisi a Chraffu Perfformiad yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2016, sydd wedi'i atodi fel Atodiad 2 i'r adroddiad.

## 9 TREFNIADAU AIL-GAFFAEL / DROS DRO CONTRACT GWEITHIWR ASIANTAETH

Ystyriodd y Cabinet adroddiad ynghylch ail-gaffael contract gweithiwr asiantaeth y Cyngor drwy'r mini-gystadleuaeth trwy Fframwaith Gweithwyr Asiantaeth Cymru Gyfan y Gwasanaethau Caffael Cenedlaethol l. Gwerth y contract fydd £28miliwn. Heb gytundeb o'r fath ar waith, byddai'r Cyngor yn methu â rheoli defnyddio gweithwyr asiantaeth, gan arwain at wariant cyngor uwch.

**PENDERFYNWYD** : i

1. cymeradwyo affael gwasanaethau gweithwyr asiantaeth o dan Fframwaith Gweithwyr Asiantaeth Cymru Gyfan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) ar gyfer y gwasanaeth a reolir ar gyfer darpariaeth gweithwyr asiantaeth.

2. Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr adnoddau corfforaethol mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet gyda chyfrifoldeb am wasanaethau corfforaethol a pherfformiad i: gynnal tendr mini o dan y cytundeb fframwaith i ddewis Darparwr gan ddefnyddio meini prawf gwerthuso is a phwysolion y fframwaith perthnasol.

   - ymdrin â;r holl faterion ategol yn ymwneud â chystadleuaeth fach.

   - dyfarnu cytundeb defnyddiwr gyda darparwr a ddewiswyd (y darparwr mwyaf manteisiol yn economaidd) a gosod archebion o dan y cytundeb defnyddiwr.

   - gymeradwyo ymestyn y cytundeb defnyddiwr tan 7 Medi 2019 pe dymuna’r Cyngor barhau â’r gwasanaethau ar ôl mis Medi 2018.

2. dyfarniad uniongyrchol dros dro pellach i'r darparwr Asiantaeth perthnasol drwy gyfrwng y fframwaith caffael cenedlaethol (NPS) Fframwaith Gweithwyr Asiantaeth Cymru Gyfa am gyfnod o 5 mis (1/7/16-30/11/16) er mwyn caniatáu tendr cystadleuol bach I redeg hyd at ddyfarnu ‘r cytundeb fyddi werth £4.2miliwn I gael ei gymeradwyo.

**10 GWASANAETHAU SEILWAITH – MODELAU DARPARU AMGEN: Y CAMAU NESAF.**

Ystyriodd y Cabinet adroddiad yn amlinellu canlyniad y dadansoddiad o’r Achos Busnes Llawn ar y Cwmni sy'n Eiddo Llwyr a Modelau Darparu Amgen Mewnol a Ddiwygiwyd ar gyfer gwasanaethau seilwaith, yn unol â’r achos busnes amlinellol a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 16 Gorffennaf 2016.

**PENDERFYNWYD** : i

1. i nodi cynnwys a chasgliadau'r adroddiad, gan gynnwys yr achos busnes llawn sydd wedi'i nodi yn Atodiad A i'r adroddiad;

2. y Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag aelodau Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros yr Amgylchedd a gwasanaethau corfforaethol a pherfformiad, wedi'i awdurdodi i:

   a. sefydlu trefniadau llywodraethiant priodol a chymorth i weithredu strategaethau ar gyfer gwella gwasanaethau a amlinellir yn yr achos busnes llawn, gan gynnwys sefydlu Bwrdd Masnacheiddio a Gwella Carlam i oruchwylio'r broses newid a gwelliant;

b. ail-alinio'r cyllidebau a gwasanaethau perthnasol yn ôl y model cyflawni arfaethedig a amlinellir ym mharagraffau 45 i 49 yr adroddiad hwn; a

c. dyrannu adnoddau staff o fewn fframwaith cyllidebol 2016-17, gan gynnwys costau buddsoddi, i gefnogi'r rhaglenni newid a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

3. I gymeradwyo yr Agenda Gwella Gwasanaethau (Gwasanaethau Seilwaith) – Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Cyngor a'r Undebau Llafur, fel y nodir yn Atodiad D yr adroddiad.

## 11 GOLEUADAU STRYD LED AR GYFER Y RHWYDWAITH FFYRDD STRATEGOL

Derbyniodd y cabinet adroddiad ynghylch y bwriad i gyfnewid 13,608 o oleuadau stryd wedi'u lleoli ar y llwybrau priffyrdd strategol yn goleuadau stryd LED. Mae hwn yn gam pwysig i gyflawni'r uchelgais y Cyngor i ddod y brifddinas orau i fyw ynddi yn Ewrop.

Amlinellodd yr adroddiad yr effeithiau cadarnhaol o'r gwaith hwn gan gynnwys llai o allyriadau CO2, arbedion yn y gyllideb a'r gallu i reoli ein rhwydwaith goleuadau o bell ac yn fwy effeithlon.

**PENDERFYNWYD**: i

1. gymeradwyo'r broses gaffael i ddyfarnu contract (gwaith) i ddarparu goleuadau stryd, fel y nodir yng nghorff yr adroddiad;

2. cyhoeddi dogfennau tendro (gan gynnwys y gwerthusiad cyffredinol, meini prawf is a HCA) gael ei gymeradwyo;

3. cymeradwyo cyhoeddi hysbysiad yr OJEU ffurfiol yn cychwyn y broses gaffael; a

4. Dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas, yn amodol ar ymgynghori â Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad a'r Aelod Cabinet dros Drafnidiaeth, Cynllunio a Chynaliadwyedd i ymdrin â phob agwedd ar y broses gaffael a materion ategol hyd at a chan gynnwys dyfarnu contract. Cyhyd ag nad yw cost gyffredinol y contract yn fwy na £5.5miliwn o ran gwerth, neu fel arall fe gyfeirir yn ôl i'r Cabinet ar gyfer ystyriaeth.

## 12 ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL CAERDYDD

Y Cabinet ystyried adroddiad yn amlinellu'r bwriad i ymgynghori ar gyflwyno Atodlen Codi tâl drafft yr Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC). Mae'r ardoll seilwaith cymunedol yn galluogi awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr i godi arian gan ddatblygwyr sy'n cynnal prosiectau adeiladu newydd yn eu hardal.

**PENDERFYNWYD** : i

1. nodi cynnwys yr adroddiad;

2. cytuno ar yr ymateb i adroddiad grŵp gorffen a gorchwyl Pwyllgor Craffu ar y cyd: Ardoll Seilwaith Cymunedol (Mai 2016), fel y'u nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad hwn;

3. Cytuno ar yr atodlen codi tâl drafft ASC arfaethedig at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus; a

4. yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, adrodd nôl ar yr Atodlen codi tâl drafft i'r Cabinet I'w gymeradwyo cyn ei gyflwyno am gyfer Archwiliad Cyhoeddus Cam 3

Ar ddiwedd y cyfarfod, arweiniwyd munud o dawelwch gan yr Arweinydd i fyfyrio ar farwolaeth drasig yr AS Jo Cox.